Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion
# Triniaeth Laser (YAG-Capsiwlotomi)

# Uned Llygaid

Mae'r daflen hon wedi ei pharatoi i'ch helpu chi i ddeall rhagor am eich triniaeth laser a beth y dylech ei ddisgwyl yn eich apwyntiad laser.

**Pam rydw i'n cael Capsiwlotomi Laser YAG?**
Yn ystod llawdriniaeth cataract, mae'r meddyg yn tynnu'r cataract ac yn rhoi lens blastig yn y llygad, sy'n gorffwys ar gapsiwl. Fel arfer mae'r capsiwl hwn yn glir fel ffenestr. Yn achos nifer fechan o gleifion, mae'r capsiwl yn tewychu ac yn dod yn ddi-draidd fel ffenestr wydr afloyw. Mae hyn yn atal y golau rhag cyrraedd cefn y llygad. Os yw hyn yn digwydd, daw eich golwg yn aneglur.

Gall tewychu'r capsiwl ddigwydd unrhyw bryd ar ôl eich llawdriniaeth cataract o rai misoedd i flynyddoedd. Nid yw tewychu'r capsiwl yn difrodi'r llygad mewn unrhyw ffordd; dim ond gwneud y golwg yn aneglur. Rydych chi'n cael capsiwlotomi laser YAG er mwyn adfer eich golwg i'r safon cyn y llawdriniaeth cataract.

**Beth ydy manylion y driniaeth?**
Gwneir y driniaeth yn y clinig llygaid. Mae triniaeth laser yn cynnig manteision pwysig oherwydd y gellir osgoi llawdriniaethau yn aml. Defnyddir laser ar gyfer nifer o wahanol gyflyrau llygaid ac yn y rhan fwyaf o lawdriniaethau nid oes anghysur na phoen. Mae'n cynnwys pelydr o olau tuag yr ardal benodol yn y llygaid y mae angen ei thrin.

**Beth sy'n digwydd ar ddiwrnod y gweithdrefn?**

- Pan gyrhaeddwch y clinig caiff eich golwg ei asesu ac mae'n bosibl y rhoddir diferion yn eich llygad/llygaid. Gallai hyn ledu cannwyll y llygaid a helpu â'r driniaeth.

- Bydd y meddyg yn egluro wrthych pam rydych yn cael triniaeth laser os na ddwedwyd wrthych mewn apwyntiad cynt. Gofynnir i chi wedyn lofnodi ffurflen gydsyniad.

- Eir â chi i'r ystafell laser lle byddwch yn eistedd wrth beiriant gyda man i orffwys eich gên a'ch pen.

- Mae'n bosibl y rhydd y meddyg ddiferion yn eich llygad i dynnu'r teimlad o'r blaen cyn rhoi lens chwyddo arbennig arni. Yna cewch y driniaeth laser a chlywch sŵn clicio.

- Ar ôl y driniaeth laser, cynghorir eich bod yn eistedd am rhyw 5-10 munud i adfer.

- Mae’n bosibl y cewch bresgripsiwn ar gyfer diferion llygaid neu dabledi am gyfnod byr, i ddiogelu’r llygad rhag unrhyw gynnydd tymor byr yn y pwysedd yn y llygad.

- Cewch apwyntiad dilynol hefyd.

**A yw Capsiwlotomi Laser YAG yn ddiogel?**
Capsiwlotomi laser YAG yw’r dechneg fwyaf diogel a’r unig un nad yw’n torri i mewn i’r llygad ar gyfer rheoli tewychu cefn y capsiwl. Mae’r sgileffeithiau posibl ond anghyffredin a allai fygwth y golwg ar lygad sy’n agored i hynny (<1%) yn cynnwys y retina yn dod o’i lle, glawcoma neu chwyddo (uvetits neu oedema macwlar systoid).

**Nodiadau pwysig**
Peidiwch â gyrru i’r apwyntiad hwn. Gall y diferion lledu bara am oriau, sy’n achosi’r golwg i fod yn aneglur.

Fe’ch cynghorir i ddod ag oedolyn arall.
Mae’n bwysig iawn eich bod yn cadw eich apwyntiad dilynol.

Os na allwch ddod i’ch triniaeth laser, rhowch wybod i ni cyn gynted ag y bo modd. Mae rhestr aros a gallwn ddefnyddio eich apwyntiad ar gyfer rhywun arall.

Os oes gennych bryderon am eich llygad pan ydych gartref, ffoniwch:-

Clinig Llygaid ar :-Rhif ffôn:- 01633 656268
8:30am – 5.00pm - dydd Llun tan ddydd Gwener

neu

Meddyg offthalmoleg ar alwad drwy’r switsfwrdd.

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English”.**